
TGAU

TGAU CBAC

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## GEIRFA TERMAU



## Cynnwys

Uned 1

Rhan A: Crefydd 3

Rhan B – Themâu Athronyddol 11

Uned 2

Rhan A: Crefydd 13

Rhan B – Themâu Moesegol 20

UNED 3 – Cristnogaeth Gatholig

Rhan A: Crefydd 22

## UNED 1

## RHAN A: CREFYDD

### Cristnogaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Hollalluog** | Natur hollbwerus ac anghyfyngedig Duw. |
| **Hollgariadus** | Y cyflwr o garu popeth a bod yn gwbl dda – nodwedd sy'n aml yn cael ei phriodoli i Dduw. |
| **Y Drindod** | Tri pherson Duw; Duw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. |
| **Ymgnawdoliad** | "Y Gair yn gnawd" – y gred Gristnogol bod Duw wedi dod yn ddyn ym mherson Iesu, yn gwbl ddynol ac yn gwbl ddwyfol. Duw'n dod yn fod dynol ar ffurf Iesu. |
| **Yr Iawn** | Y gred bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu wedi cau'r rhwyg rhwng dynoliaeth a Duw, a thrwy hynny agor y ffordd i Dduw a phobl fod 'fel un' eto. |
| **Gorchymyn Dwyfol** | Y gred bod rhywbeth yn gywir oherwydd bod Duw yn ei orchymyn. |
| **Agape** | Cariad anhunanol, aberthol, diamod. Mae Cristnogaeth yn ystyried agape fel y math uchaf o gariad. Mae aberth Iesu ar y groes i achub dynoliaeth, a dysgeidiaethau fel 'Câr dy gymydog', yn enghreifftiau o'r cariad hwn. |
| **Deialog rhwng crefyddau** | Cymunedau a grwpiau ffydd gwahanol yn dod ynghyd er mwyn deall ei gilydd yn well a gwasanaethu'r gymuned ehangach. Maen nhw'n parchu ei gilydd ac mae hyn yn eu galluogi i fyw'n heddychlon ochr yn ochr, er gwaetha'r gwahaniaethau o ran credoau a ffordd o fyw. |
| **Hollwybodus** | Duw sy'n gwybod popeth. |
| **Ysbryd Glân** | Un o dri pherson y Drindod Sanctaidd. Addawodd Iesu i'r Apostolion y byddai'n anfon yr Ysbryd Glân ar ôl ei Groeshoeliad a'i Atgyfodiad. Mae Cristnogion yn credu bod yr Ysbryd Glân yn bresennol, a hynny ar ffurf grym Duw ar waith yn y byd. |
| **Atgyfodiad** | Y gred bod Iesu wedi codi o farw'n fyw ar y trydydd dydd ar ôl iddo gael ei groeshoelio, a thrwy hynny ei fod wedi trechu marwolaeth. Mae'n cael ei gofio bob blwyddyn ar Sul y Pasg. |
| **Meseia** | Ystyr y gair yw 'yr Eneiniog'. Y Meseia yw'r un sydd wedi'i anfon gan Dduw i achub dynoliaeth, yn ôl rhai. Mae Cristnogion yn credu mai Iesu yw'r person hwn. |

Y grefydd Gatholig – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Hollalluog** | Natur hollbwerus ac anghyfyngedig Duw. |
| **Hollgariadus** | Y cyflwr o garu popeth a bod yn gwbl dda – nodwedd sy'n aml yn cael ei phriodoli i Dduw. |
| **Y Drindod** | Tri pherson Duw; Duw y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. |
| **Ymgnawdoliad** | "Y Gair yn gnawd" – y gred Gristnogol bod Duw wedi dod yn ddyn ym mherson Iesu, yn gwbl ddynol ac yn gwbl ddwyfol. Duw'n dod yn fod dynol ar ffurf Iesu. |
| **Yr Iawn** | Y gred bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu wedi cau'r rhwyg rhwng dynoliaeth a Duw, a thrwy hynny agor y ffordd i Dduw a phobl fod 'fel un' eto. |
| **Gorchymyn Dwyfol** | Y gred bod rhywbeth yn gywir am fod Duw yn ei orchymyn. |
| **Agape** | Cariad anhunanol, aberthol, diamod. Mae Cristnogaeth yn ystyried agape fel y math uchaf o gariad. Mae aberth Iesu ar y groes i achub dynoliaeth, a dysgeidiaethau fel 'Câr dy gymydog', yn enghreifftiau o'r cariad hwn. |
| **Deialog rhwng crefyddau** | Cymunedau a grwpiau ffydd gwahanol yn dod ynghyd er mwyn deall ei gilydd yn well a gwasanaethu'r gymuned ehangach. Maen nhw'n parchu ei gilydd ac mae hyn yn eu galluogi i fyw'n heddychlon ochr yn ochr, er gwaetha'r gwahaniaethau o ran credoau a ffordd o fyw. |
| **Atgyfodiad** | Y gred bod Iesu wedi codi o farw'n fyw ar y trydydd dydd ar ôl iddo gael ei groeshoelio, a thrwy hynny ei fod wedi trechu marwolaeth. Mae'n cael ei gofio bob blwyddyn ar ddydd Sul y Pasg. |

| | |
|---|---|
| **Sacramentau** | Arwyddion allanol o ras mewnol, wedi'u hordeinio gan Iesu Grist, sy'n dangos bod yr enaid yn derbyn gras Duw. Defodau yw sacramentau sy'n dod â'r hyn maen nhw'n ei olygu i fodolaeth.<br>Mae'r Eglwys Gatholig yn cydnabod saith sacrament:<br>• Bedydd<br>• Cymod (yn cael ei alw'n Benyd neu Gyffes hefyd)<br>• Ewcharist (yn cael ei alw'n Gymun Bendigaid hefyd)<br>• Conffyrmasiwn/bedydd esgob<br>• Priodas<br>• Urddau Eglwysig (yn cael ei alw'n Ordeinio hefyd)<br>• Eneinio'r Claf. |
| **Offeren** | Dathlu'r Ewcharist. Y ddefod addoli fwyaf canolog i Gatholigion, sy'n ail-greu'r Swper Olaf. Mae Catholigion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau'n ymwneud ag achubiaeth marwolaeth ac atgyfodiad Iesu lle maen nhw'n credu bod y bara a'r gwin yn dod yn gorff a gwaed Iesu. |
| **Imago Dei** | '...ar ddelw Duw'. Y gred mai bodau dynol yn unig sy'n adlewyrchiad o berson Duw. Yn wahanol i anifeiliaid eraill, mae bodau dynol yn rhesymol, yn rhydd ac yn foesol. |

Iddewiaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Hollalluog** | Natur hollbwerus ac anghyfyngedig Duw. |
| **Hollgariadus** | Y cyflwr o garu popeth a bod yn gwbl dda – nodwedd sy'n aml yn cael ei phriodoli i Dduw. |
| **Shema** | Gweddi sy'n datgan y ffydd Iddewig; mae llawer o Iddewon yn ei hadrodd ddwywaith y dydd. Mae'r Shema'n datgan mai dim ond un Duw sydd. Mae'n cael ei rhoi yng nghas y mezuzah ac yn y tefillin. |
| **Synagog** | Tŷ ymgynnull; adeilad lle mae Iddewon yn gweddïo'n gyhoeddus, yn astudio ac yn ymgynnull. |
| **Uniongred** | Un o brif ganghennau Iddewiaeth, sy'n glynu'n ffyddlon wrth egwyddorion ac arferion Iddewiaeth draddodiadol. Mae Iddewon Uniongred yn credu bod Cyfraith y Torah yn dragwyddol a digyfnewid, ac maen nhw'n cadw at ddefod y Sabath, gwyliau crefyddol, diwrnodau sanctaidd a'r deddfau bwyd. |
| **Diwygiedig** | Un o brif ganghennau Iddewiaeth, sy'n croesawu amrywiaeth o ddehongliadau o arferion a chyfraith Iddewig, ond sy'n cadw'r credoau, y gwerthoedd a'r traddodiadau sy'n ganolog i'r ffydd. Mae Iddewon diwygiedig yn credu bod y gyfraith Iddewig wedi'i hysbrydoli gan Dduw, ac y gall pobl ddewis pa ddeddfau i'w dilyn. |
| **Shabbat** | Diwrnod o adnewyddu ysbrydol a gorffwys. Mae'n dechrau pan fydd yr haul yn machlud ar ddydd Gwener ac yn dod i ben wrth iddi nosi ar ddydd Sadwrn. |
| **Kashrut** | Y gyfraith Iddewig sy'n dweud pa fwydydd mae Iddewon yn gallu a ddim yn gallu eu bwyta, yn ogystal â sut i baratoi'r bwydydd hyn. Mae'r gair 'kashrut' yn dod o'r Hebraeg ac yn golygu addas, priodol neu gywir. Mae'r gair 'kosher' yn disgrifio'r bwyd sy'n bodloni safonau kashrut. |
| **Aron Hakodesh** | Yr arch sanctaidd lle mae sgroliau'r Torah yn cael eu cadw. Mae wedi'i leoli ar y wal sy'n wynebu Jerwsalem, a dyma ganolbwynt y synagog. |
| **Rabbi** | Athro ac arweinydd crefyddol sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith Iddewig. Y rabbi yw'r prif swyddog crefyddol mewn synagog sydd yn aml (ond nid bob tro) yn arwain yr addoli ac yn cynnal defodau a seremonïau. |
| **Kippah** | Cap mae dynion a bechgyn (ac weithiau menywod) Iddewig yn ei wisgo yn ystod gwasanaethau. Mae rhai Iddewon yn gwisgo kippah drwy'r amser. Mae'n eu hatgoffa am bresenoldeb Duw. Enw arall ar y kippah yw'r yarmulke. |
| **Ner Tamid** | 'Goleuni tragwyddol'; lamp sydd wedi'i goleuo'n barhaus ger yr arch yn y synagog fel symbol o bresenoldeb Duw. |

Islam – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Tawhid** | 'Unoliaeth' wrth gyfeirio at Dduw – dyma'r gred Fwslimaidd sylfaenol am unoliaeth Allah. |
| **Shahadah** | Datganiad o ffydd sy'n cynnwys y geiriau, 'Does dim duw ond Allah, y Proffwyd Muhammad yw Negesydd Allah'. |
| **Shirk** | Gwneud cymhariaeth; ystyried bod unrhyw beth yn gydradd ag Allah neu'n bartner iddo. |
| **Qur'an** | Yr hyn sy'n cael ei ddarllen neu ei adrodd. Y llyfr dwyfol a gafodd ei ddatgelu i'r Proffwyd Muhammad. Datguddiad olaf Allah i ddynoliaeth. |
| **Salat** | Cyfathrebu gorfodol ag Allah, a'i addoli dan amodau penodol, yn y modd y dysgodd y Proffwyd Muhammad, ac wedi'i adrodd yn Arabeg. Mae Mwslimiaid yn credu bod amser y pum cyfnod Salat wedi'u pennu gan Allah. |
| **Sawm** | Ymprydio rhwng ychydig cyn y wawr a machlud haul. Rhaid ymwrthod â phob bwyd a diod yn ogystal ag ysmygu a pherthynas rywiol. |
| **Zakat** | Puro cyfoeth drwy roi i elusen yn flynyddol. Gweithred orfodol o addoli. |
| **Adhan** | Galwad i weddïo, fel arfer wedi'i datgan gan muezzin. |
| **Halal** | Unrhyw weithred neu beth sydd wedi'i ganiatáu neu sy'n gyfreithlon, yn aml yn cyfeirio at fwyd sy'n cael ei ganiatáu. |
| **Du'ah** | Gwahanol fathau o weddïo personol. |
| **Saddaqah** | Taliad gwirfoddol neu weithred dda am reswm elusennol. |
| **Hadith** | Dywediad; adroddiad; cofnod. Dywediadau'r Proffwyd Muhammad, wedi'u cofnodi gan ei dylwyth, ei ddisgynyddion a'i gyfoedion. Dyma rai o brif ffynonellau'r gyfraith Islamaidd. |

Hindŵaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Brahman** | Y pŵer goruchaf yn y Bydysawd; y realiti eithaf; Duw. |
| **Atman** | Yr hunan unigol neu'r enaid unigol; yn ôl Hindŵiaid, nid yw Atman yn gorfforol a bydd yn dychwelyd at Brahman unwaith y bydd moksha wedi'i gyflawni. |
| **Trimurti** | Y tair prif agwedd ar Brahman, y pŵer goruchaf; Brahma y Creawdwr, Vishnu y Cynhaliwr a Shiva y Dinistriwr. |
| **Avatar** | Ymgnawdoliad duwdod (dwyfol yn dod yn ddynol), weithiau ar ffurf bod dynol; yr un a ddefnyddir amlaf yw Vishnu, Duw'r Cynhaliwr, a gafodd ei ymgnawdoli drwy Krishna. |
| **Puja** | Gweddïo ar y duwiau/addoli'r duwiau; yn aml ar ffurf murtis. |
| **Arti** | Ffurf ar addoliad/gweddïo Hindŵaidd, lle mae lampau sy'n llosgi yn cael eu chwifio o flaen y murtis (cerfluniau) o'r duwiau i alw ar eu presenoldeb. |
| **Upanaya** | Seremoni'r edau sanctaidd. |
| **Mandir** | Man addoli neu gysegr Hindŵaidd. |
| **Bhakti** | Ymroddiad. Yn y traddodiadau bhakti, credir mai caru Duw yw'r llwybr i moksha (rhyddhad ysbrydol). |
| **Varanasi** | Dinas hynafol yng ngogledd India, ar lannau afon Ganges. Un o'r saith man sanctaidd mewn Hindŵaeth, sy'n bwysig fel canolfan ysbrydolrwydd; mae llawer o Hindŵiaid yn dymuno cael diweddu eu bywyd yno. |
| **Nam Samskar** | Y pumed samskar, pan fydd plentyn yn cael ei enw tua'r unfed diwrnod ar ddeg ar ôl ei eni. Enw arall ar hwn yw Namakarana. |
| **Murti** | Delw a chynrychiolaeth o dduwdod mewn teml neu gysegr, neu yn y cartref. |

Sikhiaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Guru** | Athro crefyddol ac arweinydd ysbrydol. |
| **Sewa** | Gwasanaeth i fodau dynol eraill; gweithredoedd o garedigrwydd neu gymwynasgarwch. |
| **Gurdwara** | Yr enw a roddir i fan addoli Sikhaidd; mae'n golygu 'porth i'r Guru'. |
| **Guru Granth Sahib** | Ysgrythur sanctaidd Sikhiaeth, sy'n cael ei hystyried yn Air datguddiedig Duw. |
| **Langar** | Y gegin gymunedol ddi-dâl sydd i'w chael ym mhob gurdwara. Mae hon yn gonglfaen i'r grefydd Sikhaidd sy'n amlygu cydraddoldeb, a chafodd ei sefydlu gan Guru Nanak. |
| **Y Pum K** | Pum symbol Sikhiaeth, sy'n cael eu gwisgo gan bob Sikh Khalsa:<br>• Kachera – trôns neu siorts i'w hatgoffa am y dillad roedd y milwyr fu'n ymladd dros y ffydd yn eu gwisgo. Maent hefyd yn symbol o ymataliaeth a diweirdeb<br>• Kangha – y grib sy'n eu hatgoffa bod Duw yno i gael gwared ar y clymau yn eu bywydau, ac y gallan nhw droi ato bob amser<br>• Kara – dyma'r freichled sy'n eu hatgoffa bod Duw'n dragwyddol<br>• Kesh – mae nifer o ystyron symbolaidd yn perthyn i'r gwallt heb ei dorri, gan gynnwys ymwrthod â balchder, a gwerthfawrogi'r greadigaeth fel rhodd gan Dduw<br>• Kirpan – y dagr sy'n cael ei wisgo i symboleiddio amddiffyniad rhag ymosodiad, a bod y rhai sy'n cael eu gormesu wedi'u gwarchod. |
| **Amrit Sanskar** | Yr enw ar y seremoni sy'n derbyn unigolyn i'r Khalsa. |
| **Gurmurkh** | Rhywun sydd wedi datblygu i fod yn Dduw-ganolog yn hytrach nag yn hunanganolog (mankmukh). |
| **Mukti** | Rhyddid ysbrydol o gylch genedigaeth, bywyd, marwolaeth ac ailenedigaeth. |
| **Singh/Kaur** | Singh – mae'n golygu 'llew', a hwn yw enw canol neu enw olaf Sikh gwrywaidd; mae'n enw olaf gorfodol i Sikh Khalsa gwrywaidd.<br><br>Kaur – mae'n golygu 'tywysoges', a hwn yw enw canol neu enw olaf Sikh benywaidd; mae'n enw olaf gorfodol i Sikh Khalsa benywaidd.<br><br>Datganodd Guru Gobind Singh y dylai pob Sikh rannu'r enwau cyffredin hyn er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned a chydraddoldeb. |
| **Karma** | Y gred bod gweithredoedd, a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny, yn pennu a fydd yr atman yn cael ei ryddhau o gylch genedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth. Gallai rhywun ennill karma cadarnhaol a/neu negyddol. |

Bwdhaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Bwdha** | Un sydd wedi cael goleuedigaeth lwyr; Siddhartha Gautama. |
| **Dukkha** | Dioddefaint/annigonolrwydd. |
| **Tanha** | Dyhead, awydd, ysfa am eiddo, pobl, bod yn barhaol. |
| **Llwybr Wythblyg** | ‘Meddyginiaeth’ y Pedwar Gwirionedd Nobl. Wyth cam tuag at oresgyn dioddefaint a dyheadau, a chyflawni nibbana (nirvana). Mae’n cael ei rannu’n dair adran fel arfer: Doethineb, Moesoldeb a Myfyrdod. |
| **Samatha** | Myfyrio llonydd neu fyfyrio drwy anadlu. |
| **Dhamma/ Dharma** | Dysgeidiaethau’r Bwdha. |
| **Sangha** | Cymuned y Bwdhyddion. Gall fod yn gymuned leyg neu’n gymuned fynachaidd. |
| **Wesak** | Gŵyl i goffáu genedigaeth, goleuedigaeth a marwolaeth y Bwdha. |
| **Y Pedwar Gwirionedd Nobl** | Dysgeidiaeth gyntaf y Bwdha: dioddefaint, achos dioddefaint, diwedd dioddefaint, a’r ffordd o ddod â dioddefaint i ben. |
| **Vipassana** | Myfyrdod i gael mewnwelediad, sy’n galluogi’r unigolyn i weld gwir natur pethau. |
| **Mettabhavana** | Datblygu’r pedwar math o garedigrwydd cariadus, fel arfer drwy fyfyrio. |
| **Parinirvana/Parinibbana** | 1. Nirvana cyflawn, llwyr, ar ôl marwolaeth. Wedi iddo gyflawni nirvana yn y bywyd hwn, penderfynodd y Bwdha y byddai’n aros yn y byd i rannu ei ddysgeidiaethau. Wedi iddo farw’n gorfforol, byddai mewn cyflwr o parinirvana/parinibbana.<br>2. Gŵyl Bwdhyddion Mahayana sy’n coffáu marwolaeth y Bwdha – weithiau mae’n cael ei alw’n Ddydd Nirvana. |

## RHAN B – Themâu Athronyddol

### Thema 1 – Materion yn ymwneud â Bywyd a Marwolaeth

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

*Yn y thema hon, disgwylir i ymgeiswyr gynnwys cyfeiriadau perthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod,* ***yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Anffyddwyr***.

| | |
|---|---|
| **Bywyd ar ôl marwolaeth** | Y gred bod bodolaeth yn parhau ar ôl i'r corff farw. |
| **Cyfrifoldeb amgylcheddol** | Y ddyletswydd ar fodau dynol i barchu, diogelu a gofalu am yr amgylchedd naturiol. Mae cynaliadwyedd yn allweddol i gyfrifoldeb amgylcheddol. |
| **Ewthanasia** | O'r Groeg, *eu* 'da' + *thanatos* 'marwolaeth'. Weithiau mae'n cael ei alw'n 'lladd trugarog'. Y weithred o ladd person, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn sgil y penderfyniad mai marwolaeth yw'r opsiwn gorau. |
| **Esblygiad** | Y broses mae gwahanol greaduriaid byw wedi datblygu drwyddi, yn ôl y sôn, o ffurfiau cynharach, llai cymhleth yn ystod hanes y byd. |
| **Erthylu** | Pan fydd beichiogrwydd yn dod i ben drwy dynnu'r ffoetws yn fwriadol o'r groth fel nad yw'n arwain at eni plentyn. |
| **Ansawdd bywyd** | Y graddau mae bywyd yn ystyrlon a phleserus. |
| **Sancteiddrwydd bywyd** | Y gred bod bywyd yn werthfawr neu'n sanctaidd oherwydd bod bodau dynol wedi'u creu ar 'ddelw Duw'. I lawer o gredinwyr crefyddol, dim ond bodau dynol sy'n meddu ar y statws arbennig hwn. |
| **Enaid** | Ochr ysbrydol person sy'n ei gysylltu â Duw. Ystyrir yr enaid yn rhywbeth nad yw'n gorfforol, sy'n byw ar ôl i'r corff farw, mewn bywyd ar ôl marwolaeth. |

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Daioni/drygioni** | ***Daioni* –** yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gywir yn foesol, neu'n fuddiol ac o fantais i ni.<br><br>***Drygioni* –** yr hyn sy'n cael ei ystyried yn hynod anfoesol, yn ddrwg, ac yn anghywir. |
| **Maddeuant** | Rhoi pardwn am ddrwgweithredu; rhoi'r gorau i ddicter a'r dyhead i dalu'r pwyth yn ôl i ddrwgweithredwr. |
| **Ewyllys rydd** | Y gallu i wneud dewisiadau (yn enwedig dewisiadau moesol) yn wirfoddol ac yn annibynnol. Y gred nad oes dim wedi'i ragordeinio. |
| **Cyfiawnder** | Tegwch; pan fydd pawb yn cael darpariaeth gyfartal a chyfle cyfartal, ac yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus iddyn nhw. |
| **Moesoldeb** | Egwyddorion a safonau sy'n penderfynu pa weithredoedd sy'n gywir neu'n anghywir. |
| **Heddychiaeth** | Y gred bod cyfiawnhau rhyfel a thrais yn amhosibl. |
| **Cydwybod** | Synnwyr moesol person o'r hyn sy'n gywir neu'n anghywir. Mae rhai pobl grefyddol yn credu mai'r gydwybod yw'r arweiniad mewnol sy'n dod gan Dduw. |
| **Dioddefaint** | Gofid neu boen sydd wedi'u hachosi gan anaf, salwch neu golled. Gall dioddefaint fod yn gorfforol, yn emosiynol/seicolegol neu'n ysbrydol. |

## UNED 2

## RHAN A – CREFYDD

### Cristnogaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Beibl** | Tesun sanctaidd Cristnogol y mae Cristnogion yn credu iddo gael ei ddatgelu a/neu ei ysbrydoli gan Dduw. Mae'n cynnwys yr Hen Destament a'r Testament Newydd. |
| **Datguddiad** | Duw yn ei wneud ei hunan yn hysbys i'r ddynoliaeth; er enghraifft, drwy'r Beibl. |
| **Barn** | Y gred y bydd Duw'n barnu pa un a yw bodau dynol yn haeddu mynd i Deyrnas Nefoedd ai peidio. |
| **Bedydd** | Defod dderbyn yw'r sacrament hwn, y mae pobl yn dod yn aelodau o'r Eglwys drwyddo. Mae'r gair 'bedyddio' yn golygu trochi mewn dŵr. Mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn symbol o bechod yn cael ei olchi ymaith. |
| **Rheswm** | Proses o feddwl yn rhesymegol; y gallu i feddwl mewn modd rhesymegol. Ffurfio barn a safbwyntiau drwy ystyriaeth resymol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Conffyrmasiwn (bedydd esgob)** | Defod pan mae unigolyn sydd wedi cael ei fedyddio (yn enwedig un sydd wedi cael ei fedyddio pan oedd yn faban) yn cadarnhau ei gred Gristnogol ac yn cael ei gydnabod yn aelod llawn o'r Eglwys. |
| **Ewcharist** | Mae'n golygu 'diolchgarwch', a hefyd yn cael ei alw'n 'Gymun Bendigaid'. Y gwasanaeth sy'n dathlu marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Mae'r bara a'r gwin yn cynrychioli corff a gwaed Iesu (neu, fel mae rhai Cristnogion, er enghraifft Catholigion, yn ei gredu, yn wirioneddol yn dod yn gorff a gwaed Iesu). Mae'r Ewcharist yn ail-greu'r Swper Olaf. |
| **Pererindod** | Taith sy'n cael ei gwneud i le sanctaidd yn weithred o addoli neu ddefosiwn, er enghraifft, efallai bydd Cristnogion yn ymweld â Jerwsalem er mwyn cerdded yn ôl troed Iesu. |
| **Ewyllys rydd** | Y gallu i wneud dewisiadau (yn enwedig dewisiadau moesol) yn wirfoddol ac yn annibynnol. Y gred nad oes dim wedi'i ragordeinio. |

| | |
|---|---|
| **Nefoedd/Uffern** | **Nefoedd** – ‘man’ neu ‘gyflwr’ mewn bywyd ar ôl marwolaeth i’r rhai hynny sy’n derbyn gras a maddeuant Duw yn y bywyd hwn, a lle byddant yn mwynhau bodolaeth dragwyddol ym mhresenoldeb Duw yn y bywyd nesaf.<br><br>**Uffern** – ‘man’ neu ‘gyflwr’ cosb mewn bywyd ar ôl marwolaeth i’r rhai hynny sydd, o’u hewyllys rydd eu hunain, yn gwrthod gras a maddeuant Duw, ac yn dewis byw, yn dragwyddol, y tu allan i bresenoldeb Duw. |
| **Addunedau** | Addewidion sy’n cael eu gwneud rhwng pobl, neu addewidion unigolyn i Dduw. Mae addunedau priodas yn addewidion y mae’r briodferch a’r priodfab yn eu gwneud, gan eu hymrwymo eu hunain, y naill i’r llall. |
| **Symbolau priodas** | Nodweddion y seremoni briodas sy’n dynodi pwrpas ac ystyr priodas. Er enghraifft, mae’r fodrwy briodas, sy’n gylch parhaus o fetel gwerthfawr, yn symbol o’r cariad diderfyn, gwerthfawr sydd rhwng y priodfab a’r briodferch. |

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Tenakh** | Y testun Iddewig sanctaidd, sy'n cynnwys tair rhan: y Torah, y Nevi'im a'r Ketuvim. |
| **Talmud** | Casgliad o gyfraith a thraddodiad Iddewig; y Mishnah a'r Gemara wedi'u casglu ynghyd. Mae astudio'r Talmud yn ddyletswydd grefyddol bwysig i ddynion Iddewig. |
| **Cyfamod** | Addewid neu gytundeb difrifol a rhwymol rhwng dau barti. Gwnaeth Duw gyfamodau â Noa, Abraham a Moses. |
| **Brit Milah** | Enwaedu – tynnu blaengroen y pidyn ar yr wythfed dydd ar ôl y geni. Ystyrir hyn yn arwydd o gyfamod Duw â'i bobl ddewisedig. Y cyfieithiad yw 'Cyfamod y Torri'. |
| **Bar/Bat Mitzvah** | Bar Mitzvah – Mab y Gorchymyn. Bachgen sydd wedi cyrraedd oed dyn (13 oed). Fel rheol, nodir hynny â gwasanaeth yn y synagog a dathliad teuluol.<br>Bat Mitzvah – Merch y Gorchymyn. Merch sydd wedi cyrraedd oed menyw (12 oed). Fel rheol, nodir hynny â gwasanaeth yn y synagog a dathliad teuluol. |
| **Mezuzah** | Yn llythrennol, 'postyn drws'; sgrôl mewn clawr (addurnedig yn aml) a osodir ar bost de pob drws ystafell mewn cartref Iddewig – heblaw am yr ystafell ymolchi a'r toiled. |
| **Pesach** | Caiff ei alw'n Basg Iddewig neu'n Ŵyl y Bara Croyw hefyd. Gŵyl sy'n cofféu'r Exodus o'r Aifft, ac sy'n cael ei dathlu yn y gwanwyn. |
| **Magen Dafydd** | 'Tarian Dafydd', a elwir ar lafar yn Seren Dafydd. Seren chwephwynt a ddaeth yn symbol o Iddewiaeth. Does neb yn gwybod yn union o ble mae'n tarddu. |
| **Abraham** | Yr Iddew cyntaf; sefydlydd Iddewiaeth. Y gred yw mai Abraham yw hynafiad biolegol ac ysbrydol y bobl Iddewig. |
| **Moses** | Proffwyd pwysig. Moses arweiniodd yr Hebreaid allan o gaethwasiaeth yr Aifft, a mynd â nhw at y Wlad Sanctaidd, yr oedd Duw wedi'i haddo iddyn nhw. Rhoddodd y Deg Gorchymyn gan Dduw i'r Hebreaid ac ystyrir mai ef yw'r unig fod dynol sydd wedi cyfarfod â Duw yn uniongyrchol (yn y Berth ar Dân). |
| **Gwlad yr Addewid** | Gwlad Canaan, a addawodd Duw i Abraham a'i ddisgynyddion. (Israel yw'r enw arni heddiw.) |
| **Tefillin** | Blychau lledr bychain yn cynnwys darnau o'r Torah, wedi eu strapio ar y talcen a'r fraich at weddïau ar ddyddiau'r wythnos a'r rhai boreol. Fe'u gwisgir gan Iddewon Uniongred gwryw dros oedran Bar Mitzvah. |

Islam – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Proffwyd** | Negesydd i Allah. Mae'r Qur'an yn dweud bod 25 proffwyd yn Islam gan ddechrau gydag Adam (Adda) a gorffen gyda'r proffwyd Muhammad. |
| **Isa** | Isa yw pedwerydd proffwyd ar hugain Islam, a'r olaf ond un. Mewn Cristnogaeth, Iesu yw ei enw. Mae Mwslimiaid yn credu bod Isa yn negesydd Duw, ac nad oedd yn ddwyfol mewn unrhyw ffordd. Credir bod genedigaeth Isa wedi bod yn wyrthiol ac yn ddi-dad. Roedd yn iacháu'r cleifion, a rhagfynegodd ddyfodiad Muhammad, y proffwyd olaf. |
| **Muhammad** | Proffwyd olaf Islam, y cafodd y Qur'an ei ddatguddio iddo. |
| **Ummah** | Mae'n golygu 'cymuned', ac yn cyfeirio at y gymuned fyd-eang o Fwslimiaid sy'n rhannu hunaniaeth grefyddol gyffredin. |
| **Mosg** | 'Masjid' mewn Arabeg, sef 'lle i syrthio ar yr wyneb' ar gyfer Mwslimiaid; mae'n fan addoli cymunedol i gymuned Fwslimaidd. |
| **Mecca/Makkah** | Dinas fwyaf sanctaidd Islam, sydd yn Saudi Arabia. Mecca (neu Makkah) yw man geni'r Proffwyd Muhammad, a man cychwyn Islam. Mecca yw safle'r Ka'bah, cysegr mwyaf sanctaidd Islam, a chyrchfan pererindod flynyddol yr Hajj. Mae Mwslimiaid yn gweddïo ac yn addoli gan wynebu Mecca, lle bynnag y maen nhw yn y byd. |
| **Burkha** | Gwisg hir, lac, sy'n gorchuddio'r corff cyfan o'r pen i'r traed. Mae rhai merched yn ei gwisgo'n gyhoeddus, ac mae'n orfodol i ferched mewn rhai gwledydd Islamaidd. |
| **Hijab** | Yn aml yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r pensgarff, fêl neu wisg ddiymhongar mae nifer o ferched Mwslimaidd yn eu gwisgo, sy'n gorfod gorchuddio pob peth heblaw am eu hwyneb a'u dwylo, yng ngolwg unrhyw un ond eu teulu agosaf. |
| **Al-Qadr** | Y term Mwslimaidd am 'rhagordeiniad', sy'n golygu bod Mwslimiaid yn credu bod Duw wedi trefnu tynged popeth byw. |
| **Akirah** | Y term Mwslimaidd am y gred yn y Farn Derfynol a bywyd ar ôl marwolaeth. |
| **Jihad lleiaf** | Ystyr y gair jihad yw 'ymdrechu'. Ystyr y jihad lleiaf yw ymdrech gorfforol neu 'ryfel sanctaidd' i amddiffyn Islam. |
| **Id-ul-Fitr/Eid-ul-Fitr** | Dathlu torri'r ympryd ar y diwrnod wedi i Ramadan orffen. |

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Karma** | Y gred bod gweithredoedd, a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny, yn pennu a fydd yr atman yn cael ei ryddhau o gylch genedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth. Gallai rhywun ennill karma cadarnhaol a/neu negyddol. |
| **Samsara** | Y newid cyson neu gylchred yn y byd drwy broses o enedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth o ganlyniad i ailymgnawdoliad. |
| **Moksha** | Rhyddhad o gylch genedigaeth, marwolaeth ac ailenedigaeth; rhyddid ysbrydol; undod terfynol â Duw. |
| **Cast (varna)** | Y dosbarthiadau cymdeithasol Hindŵaidd, sy'n cael eu pasio o un genhedlaeth i'r nesaf: y rhaniadau yn y gymdeithas Hindŵaidd. |
| **Ashrama** | Y pedwar cam mewn bywyd:<br>• cam y myfyriwr – Brahmacari<br>• cam y penteulu – Grihasta<br>• cam y cyfnod ymddeol/cam y meudwy – Vanaprastha<br>• cam yr ymwadu/cam y mynach crwydrol – Sannyasa |
| **Ahimsa** | Peidio ag anafu pethau byw; athrawiaeth didreisedd. |
| **Divali** | Gŵyl Goleuadau'r Hindŵiaid (weithiau Diwali neu Deepvali); mae'n dathlu bod daioni'n trechu drygioni, ac yn gwahodd y dduwies Lakshmi i'r cartref. |
| **Holi** | Gŵyl Lliwiau'r gwanwyn; hefyd yn ŵyl tân a dŵr. |
| **Ailymgnawdoliad** | Ailenedigaeth enaid/atman mewn corff newydd ar ôl marwolaeth. |
| **Dharma** | Y ddyletswydd grefyddol a moesol sy'n gysylltiedig â statws person yn y gymdeithas Hindŵaidd, sydd, ym marn llawer ond nid pawb, yn gysylltiedig â chast hefyd. |
| **Ramayana** | Un o ddwy brif arwrgerdd India, sy'n adrodd hanes Rama, seithfed avatar Vishnu, a Sita, tywysoges ac avatar y dduwies Lakshmi. |
| **ISKCON** | Cymdeithas Ryngwladol ar gyfer Ymwybyddiaeth Krishna. Enw arall arni yw mudiad Hare Krishna. |

Sikhiaeth – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Granthi** | Darllenydd y Guru Granth Sahib mewn seremonïau ac wrth addoli yn y gurdwara. Nid oes gan granthi unrhyw statws hierarchaidd, ond mae'n gallu dysgu a chynghori'r gymuned ar faterion crefyddol. |
| **Guru Gobind Singh** | Degfed guru dynol Sikhiaeth, a'r guru olaf, a oedd wedi sefydlu'r Khalsa yn 1699. Cyn y digwyddiad hwnnw, roedd yn cael ei alw'n Guru Gobind Rai. |
| **Lavan** | Emyn byr o bedwar pennill gan Guru Ram Das, sy'n cael ei gynnwys yn y Guru Granth Sahib. Mae'n cael ei ddarllen yn ystod y seremoni briodas Sikhaidd (yr Anand Karaj), tra bod y cwpl yn cerdded o amgylch y Guru Granth Sahib bedair gwaith; un cylchdro am bob un o bedwar pennill y Lavan. |
| **Gurpurbs** | Dathliadau i nodi dyddiad genedigaeth neu farwolaeth Guru; mae gurpurb hefyd yn dathlu sefydlu'r Guru Granth Sahib fel y Guru olaf yn 1604. |
| **Baisakhi** | Gŵyl cynhaeaf Sikhiaid, sydd hefyd yn nodi'r diwrnod gwnaeth Guru Gobind Singh ffurfio'r Khalsa cyntaf yn 1699. |
| **Diwali** | Gŵyl Goleuadau (weithiau Divali neu Deepvali), sy'n bwysig mewn Hindŵaeth a Sikhiaeth. I Sikhiaid, mae'r ŵyl hon yn dathlu daioni yn trechu drygioni, ac yn nodi rhyddhau'r chweched guru, Guru Hargobind, o'r carchar. Roedd Guru Hargobind wedi rhyddhau 52 o dywysogion Hindŵaidd eraill ar yr un pryd. |
| **Merthyrdod** | Profi caledi, dioddefaint neu farwolaeth ddidostur oherwydd credoau crefyddol neu wleidyddol. |
| **Amlosgi** | Cael gwared ar gorff rhywun marw drwy ei losgi'n lludw. |
| **Khalsa** | Y gymuned o Sikhiaid sydd wedi'u hurddo'n llawn. Maen nhw wedi cymryd rhan yn seremoni urddo'r Amrit Sanskar, yn gwisgo'r Pum K, ac wedi mabwysiadu'r enwau gorfodol ('Singh' neu 'Kaur'). |
| **Guru Arjan Dev** | Y pumed o'r deg Guru dynol a oedd wedi llunio'r Adi Granth. Cafodd ei ferthyru am wrthod cael gwared ar gyfeiriadau Hindŵaidd ac Islamaidd. |
| **Cast** | Rhaniadau cymdeithasol yn y gymdeithas Hindŵaidd mae Sikhiaeth yn ceisio eu hosgoi. |
| **Chauri** | Gwyntyll, sydd fel arfer wedi'i gwneud o wallt ceffyl, ac sydd â handlen bren neu fetel iddi. Mae'n cael ei chwifio gan y granthi wrth iddo/iddi ddarllen y Guru Granth Sahib. Mae hon yn weithred symbolaidd, sy'n dwyn i gof y weithred arferol o wyntyllu ymwelwyr pwysig yn India er mwyn cadw'r aer o'u hamgylch yn oer ac yn rhydd o bryfed. Mae'n amlygu statws pwysig y Guru Granth Sahib. |

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Anicca** | Byrhoedledd. |
| **Anatta** | Dim hunan neu 'enaid' annibynnol neu barhaol. |
| **(S)kandha** | Y pum elfen sy'n gwneud bod dynol: ffurf, teimlad, dirnadaeth, ffurfiannau meddyliol, ac ymwybyddiaeth. |
| **Vihara** | Teml Fwdhaidd a lle i fynachod fyw. |
| **Bodhisattva** | Bod goleuedig, sy'n gohirio ei oleuedigaeth ei hunan er mwyn ceisio goleuedigaeth i eraill drwy barhau ar olwyn samsara yn hytrach na derbyn Nirvana/Nibbana. |
| **Pum argymhelliad** | Pum rheol neu, yn fwy cywir, pum nod y dylai pob Bwdhydd ymgyrraedd atynt. Nod Bwdhyddion yw ymatal rhag:<br>• niweidio pethau byw<br>• cymryd yr hyn nad yw'n cael ei roi am ddim<br>• camymddwyn yn rhywiol<br>• camddefnyddio lleferydd<br>• cymylu'r meddwl â sylweddau meddwol. |
| **Puja** | Addoli; ffyrdd o fynegi anrhydedd ac ymroddiad. Gall gweithredoedd puja gynnwys llafarganu, ymgrymu a rhoi offrymau. |
| **Stupa** | Cofadail sy'n cynnwys creiriau'r Bwdha, ynghyd â nodweddion sy'n symbolau o fywyd a dysgeidiaethau'r Bwdha. |
| **Theravada** | 'Ffordd yr Henuriaid'; yr un mwy traddodiadol o ddau brif draddodiad Bwdhaeth. Maen nhw'n derbyn dysgeidiaeth y Canon Pali yn unig. |
| **Mahayana** | 'Cerbyd Mawr'; fersiwn blaengar, mwy rhyddfrydol o Fwdhaeth. Mae Bwdhaeth Mahayana yn cydnabod llawer iawn o ysgrythur nad yw yn y Canon Pali. |
| **Mudra** | Ystumiau llaw symbolaidd, sy'n cael eu defnyddio mewn addoliad. |
| **Triratna** | 'Y Tair Gem' y mae Bwdhyddion 'yn mynd atynt am noddfa':<br>• Y Bwdha<br>• Y Dharma (Dhamma)<br>• Y Sangha |

## RHAN B – THEMÂU MOESEGOL

### Thema 1 – Perthnasoedd

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Godineb** | Cyfathrach rywiol wirfoddol rhwng unigolyn priod a rhywun nad yw'n briod iddo. |
| **Ysgariad** | Dod â phriodas i ben yn gyfreithiol. |
| **Cyd-fyw** | Byw gyda rhywun mewn perthynas rywiol, heb fod wedi priodi, neu mewn partneriaeth sifil. |
| **Ymrwymiad** | Ymdeimlad o ymroddiad a dyletswydd at rywun neu rywbeth. |
| **Atal cenhedlu** | Dulliau sy'n cael eu defnyddio i atal merch rhag beichiogi. |
| **Cydraddoldeb rhwng y rhywiau** | Pawb o bob rhyw yn mwynhau'r un hawliau a chyfleoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau. |
| **Cyfrifoldebau** | Gweithredoedd/dyletswyddau y mae disgwyl/mae'n rhaid i chi eu cyflawni. |
| **Rolau** | Safle, statws neu swyddogaeth unigolyn mewn cymdeithas, yn ogystal â'r priodoleddau a'r ymddygiad cymdeithasol sy'n cael ei ddisgwyl ganddo. |

Thema 2 – Hawliau Dynol

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Sensoriaeth** | Yr arfer o atal a chyfyngu ar y gallu i gyrchu deunyddiau sy'n cael eu hystyried yn anweddus, yn dramgwyddus, neu'n fygythiad i ddiogelwch. Gall pobl hefyd gael eu cyfyngu gan ddeddfau sensoriaeth o ran yr hyn y maent yn ei lefaru. |
| **Gwahaniaethu** | Trin grwpiau o bobl neu unigolion yn wahanol, a hynny oherwydd rhagfarn. |
| **Eithafiaeth** | Credu mewn, cefnogi a gweithredu ar syniadau sy'n bell iawn oddi wrth yr hyn y mae'r mwyafrif o bobl yn ei ystyried yn gywir neu'n rhesymol. |
| **Hawliau dynol** | Hawliau sylfaenol bodau dynol i gyd, sy'n cael eu rhoi iddynt, yn syml, am eu bod yn ddynol. |
| **Argyhoeddiad personol** | Rhywbeth y mae rhywun yn ei deimlo neu'n ei gredu'n gryf. |
| **Rhagfarn** | Llunio barn ymlaen llaw; barnu bod pobl yn israddol neu'n uwchraddol, a hynny heb achos. |
| **Tlodi cymharol ac absoliwt** | ***Tlodi absoliwt*** – stad ddifrifol o amddifadedd, lle nad yw anghenion mwyaf sylfaenol unigolyn yn cael eu diwallu.<br>***Tlodi cymharol*** – safon o dlodi sy'n cael ei mesur mewn perthynas â safonau'r gymdeithas y mae'r unigolyn yn byw ynddi, e.e. byw ar lai nag X% o incwm cyfartalog y DU. |
| **Cyfiawnder cymdeithasol** | Hyrwyddo cymdeithas deg drwy herio anghyfiawnder a rhoi gwerth ar amrywiaeth. Sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ddarpariaethau, a bod ganddynt gyfleoedd a hawliau cyfartal. |

## UNED 3 – Cristnogaeth Gatholig

## RHAN A: CREFYDD

### Y grefydd Gatholig – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Beibl** | Casgliad o ysgrifau y mae Cristnogion yn credu iddo gael ei ddatgelu gan Dduw. Mae'n cynnwys yr Hen Destament a'r Testament Newydd. |
| **Cydwybod** | Rheswm dynol wrth wneud dewisiadau moesol. Y wybodaeth sydd gennym am yr hyn sy'n gywir neu'n anghywir, a'r cymhelliad sydd wedi'i roi gan Dduw i bob bod dynol i wneud yr hyn sy'n gywir ac i osgoi drygioni. |
| **Barn** | Y gred y bydd Duw'n barnu pa un a yw bodau dynol yn haeddu mynd i Deyrnas Nefoedd ai peidio. |
| **Gorsafoedd y Groes** | Pedwar ar ddeg neu bymtheg darlun neu leoliad (fel rheol y tu mewn i eglwys) lle gall addolwyr ddilyn cerrig milltir taith Iesu ar ddiwrnod ei groeshoeliad. |
| **Adfent** | Tymor disgwyl am ddyfodiad Crist; cyfnod o bedwar Sul o baratoi at y Nadolig. |
| **Ystwyll** | Y wledd sy'n dathlu'r Ymgnawdoliad yn 'disgleirio', 'yn ei amlygu ei hun', neu'n cael ei ddatguddio. Yn cael ei ddathlu ar ddeuddegfed diwrnod y Nadolig, sef y diwrnod olaf. Mae'n dathlu ymweliad y Doethion â'r baban Iesu. |
| **Grawys** | Deugain niwrnod o ymprydio, gweddïo a pharatoi sy'n arwain at y Pasg. |
| **Pererindod** | Taith o arwyddocâd crefyddol i leoliad neu gysegr sanctaidd. Gall Catholigion hefyd ystyried eu taith eu hunain drwy fywyd fel pererindod. |
| **Datguddiad** | Duw'n ei wneud ei hun yn hysbys i ddynoliaeth; er enghraifft, drwy'r Beibl. |
| **Purdan** | Y broses o buro'r unigolyn o bechod cyn iddo uno â Duw yn y nefoedd. |
| **Blwyddyn litwrgaidd** | Enw arall arni yw'r flwyddyn Eglwysig neu'r calendr Cristnogol, sef cylch blynyddol y tymhorau a gwyliau yn seiliedig ar ryfeddodau Iesu. Mae'r flwyddyn litwrgaidd yn dechrau gyda'r Adfent, ac yn gorffen gyda gŵyl Crist y Brenin.<br>Mae'r flwyddyn litwrgaidd wedi'i rhannu yn chwe chyfnod:<br>1. Yr Adfent<br>2. Y Nadolig<br>3. Amser Ordinari wedi'r Ystwyll<br>4. Y Grawys ac Wythnos y Pasg<br>5. Y Pasg<br>6. Amser Ordinari wedi'r Pentecost. |
| **Cyffesgelloedd** | Bwth neu sedd mewn eglwys Gatholig, lle mae offeiriad yn eistedd i wrando ar gyffesion. Dyma lle mae Sacrament y Cymod/Penyd yn aml yn digwydd. |

Y grefydd Gatholig – credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

Cwestiwn 2

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Y Pab** | Esgob Rhufain, pennaeth yr Eglwys Gatholig. |
| **Addunedau crefyddol** | Addewidion cysegredig o dlodi, diweirdeb ac ufudd-dod, sy'n cael eu gwneud gan fynachod a lleianod, brodyr a chwiorydd crefyddol. |
| **Ichthus** | Delwedd o bysgodyn, wedi'i llunio o ddwy arc croestoriadol. Dywedir ei fod yn cael ei ddefnyddio fel symbol cyfrinachol o Gristnogaeth gynnar. Roedd y gair Groeg am bysgodyn, ICHTHUS, yn ffurfio acronym ar gyfer Crist:<br>• Iota (i) yw llythyren gyntaf Iesous (y gair Groeg am Iesu)<br>• Chi (kh) yw llythyren gyntaf Khristos (y gair Groeg am Grist)<br>• Theta (th) yw llythyren gyntaf Theou (y gair Groeg am Dduw, neu "yn eiddo i Duw")<br>• Upsilon (u) yw llythyren gyntaf Huios (y gair Groeg am Fab)<br>• Sigma (s) yw llythyren gyntaf Soter (y gair Groeg am Waredwr) |
| **Olyniaeth apostolaidd** | Y llinach o esgobion Catholig, sy'n cael ei holrhain at apostolion Iesu. Mae pob esgob Catholig yn cael ei ystyried yn rhan o'r llinach hon, a gellir ei holrhain i gyfnod yr apostolion. |
| **Anffaeledig** | Heb fai. Y gred bod dysgeidiaeth y Pab ar ran yr Eglwys, dan amodau llym, yn cael ei diogelu rhag pob bai. Mae dysgeidiaeth yr Eglwys bob amser yn anffaeledig, ond mae dysgeidiaeth y Pab hefyd felly mewn amgylchiadau prin. Yn hanes yr Eglwys bu dau ddatganiad pabaidd anffaeledig. |
| **Crefyddwr** | Rhywun sydd wedi gwneud addunedau o dlodi, diweirdeb ac ufudd-dod; mynach neu leian, brawd a chwaer crefyddol. |
| **Chi Rho** | Symbol Cristnogol sy'n cynnwys croestoriad o'r priflythrennau Groeg Chi (X) a Rho (P), sef dwy lythyren gyntaf 'Crist' mewn Groeg (ΧΡΙΣΤΟΣ, Christos). Gall y Chi-Rho gynrychioli naill ai Crist neu Gristnogaeth. |
| **Beichiogi Dihalog** | Y gred bod Duw wedi cadw'r Forwyn Fair rhag cael ei halogi gan y Pechod Gwreiddiol o'r eiliad y cafodd ei chenhedlu. |
| **Mawrygu** | Y weithred o ystyried rhywbeth gyda'r parch a'r parchedigaeth mwyaf; anrhydeddu sant neu rywun sanctaidd iawn, ond heb ei addoli. |
| **Theotokos** | O *Theos,* sy'n golygu "Duw", a *tokos,* sy'n golygu "cludydd", sef y teitl sy'n cael ei roi i'r Forwyn Fair, yr un wnaeth gario/rhoi genedigaeth i Iesu. |
| **Enciliadau** | Neilltuo amser yn ystod bywyd pob dydd i ganolbwyntio ar Dduw, crefydd ac ysbrydolrwydd; amser i gyfathrebu â Duw drwy weddïo a myfyrio. |
| **Croes** | Cynrychiolaeth o groes Iesu, gyda ffigur o Iesu wedi'i groeshoelio arni. |

Thema 1 – Perthnasoedd (safbwynt Catholig)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Godineb** | Cyfathrach rywiol wirfoddol rhwng unigolyn priod a rhywun nad yw'n briod iddo. |
| **Ysgariad** | Dod â phriodas i ben yn gyfreithiol. |
| **Cyd-fyw** | Byw gyda rhywun mewn perthynas rywiol, heb fod wedi priodi, neu mewn partneriaeth sifil. |
| **Ymrwymiad** | Ymdeimlad o ymroddiad a dyletswydd at rywun neu rywbeth. |
| **Atal cenhedlu** | Dulliau sy'n cael eu defnyddio i atal merch rhag beichiogi. |
| **Cydraddoldeb rhwng y rhywiau** | Pawb o bob rhyw yn mwynhau'r un hawliau a chyfleoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau. |
| **Cyfrifoldebau** | Gweithredoedd/dyletswyddau y mae disgwyl/mae'n rhaid i chi eu cyflawni. |
| **Rolau** | Safle, statws neu swyddogaeth unigolyn mewn cymdeithas, yn ogystal â'r priodoleddau a'r ymddygiad cymdeithasol sy'n cael ei ddisgwyl ganddo. |

Thema 2 – Hawliau Dynol (safbwynt Catholig)

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| **Sensoriaeth** | Yr arfer o atal a chyfyngu ar y gallu i gyrchu deunyddiau sy'n cael eu hystyried yn anweddus, yn dramgwyddus, neu'n fygythiad i ddiogelwch. Gall pobl hefyd gael eu cyfyngu gan ddeddfau sensoriaeth o ran yr hyn y maent yn ei lefaru. |
| **Gwahaniaethu** | Trin grwpiau o bobl neu unigolion yn wahanol, a hynny oherwydd rhagfarn. |
| **Eithafiaeth** | Credu mewn, cefnogi a gweithredu ar syniadau sy'n bell iawn oddi wrth yr hyn y mae'r mwyafrif o bobl yn ei ystyried yn gywir neu'n rhesymol. |
| **Hawliau dynol** | Hawliau sylfaenol bodau dynol i gyd, sy'n cael eu rhoi iddynt, yn syml, am eu bod yn ddynol. |
| **Argyhoeddiad personol** | Rhywbeth y mae rhywun yn ei deimlo neu'n ei gredu'n gryf. |
| **Rhagfarn** | Llunio barn ymlaen llaw; barnu bod pobl yn israddol neu'n uwchraddol, a hynny heb achos. |
| **Tlodi cymharol ac absoliwt** | ***Tlodi absoliwt*** – stad ddifrifol o amddifadedd, lle nad yw anghenion mwyaf sylfaenol unigolyn yn cael eu diwallu.<br>***Tlodi cymharol*** – safon o dlodi sy'n cael ei mesur mewn perthynas â safonau'r gymdeithas y mae'r unigolyn yn byw ynddi, e.e. byw ar lai nag X% o incwm cyfartalog y DU. |
| **Cyfiawnder cymdeithasol** | Hyrwyddo cymdeithas deg drwy herio anghyfiawnder a rhoi gwerth ar amrywiaeth. Sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ddarpariaethau, a bod ganddynt gyfleoedd a hawliau cyfartal. |